# Gideon a'i fyddin o 300



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Yn ein gwers olaf, fe ddysgon ni am alwad Duw i Gideon fod yn farnwr. Heddiw, byddwn yn darllen am Gideon yn gorchfygu'r Midianiaid oedd wedi cymryd drosodd gwlad yr Iddewon. Mae'r darn i'w gael yn Barnwyr 7:1-25. Rhai o'r prif bwyntiau yw:

- Gall Dduw gwastad ddarparu'r fuddugoliaeth.
- Mae ynglŷn â Duw, nid ni.
- Dylwn wastad foliannu Duw, nid dynion.

## Cynllun y wers

Atgoffwch y plentyn am Gideon a'i alwad i fod yn farnwr ac i orchfygu'r Midianiaid. Gofynnwch i'ch plentyn os oedd Gideon yn gynhyrfus neu'n ofnus pan oedd Duw wedi ei alw. Pwyntiwch allan bod byddin yr Midianiaid yn enfawr a chryf.

Gofynnwch i'r plentyn os ydynt yn meddwl byddai byddin fawr neu un bach y gorau i orchfygu gelyn gyda llawer o filwyr. Pwyntiwch allan bod Duw wedi dweud wrth Gideon i wneud y fyddin yn llai fel bod pawb yn gwybod mai Duw yn unig roddodd y fuddugoliaeth i Gideon. Atgoffwch y plentyn bod Duw dal i ddarparu pobl sydd â ffydd Ynddo gyda'r fuddugoliaeth.

Rhowch fowlen o ddŵr allan a dywedwch wrth eich plentyn i gymryd diod (mae hyn yn well i wneud tu allan i osgoi llanast.) Yn dibynnu ar sut mae'r plentyn yn dewis yfed, trafodwch a fyddai'n rhan o fyddin Gideon neu ddim. Pwyntiwch allan os yw rhywun yn yfed gyda'i wyneb yn y dŵr, dydy e ddim yn medru gweld beth sy'n mynd ymlaen o'i gwmpas. Siaradwch am sut mae'r dynion oedd yn yfed trwy wneud cwpan gyda'i dwylo a chodi'r dŵr i'w cegau yn dangos doethineb trwy wylio eu hamgylchedd a bod yn ymwybodol.

Darllenwch Salm 20:7, "7 Mae rhai yn brolio yn eu cerbydau rhyfel a'u meirch, ond dŷn ni'n brolio'r ARGLWYDD ein Duw." (Beibl.net) Casglwch fflocholau/tortsh, bag papur, a chorn neu diwb papur tywel. Gofynnwch i'ch plentyn a fyddai'r eitemau yma yn gorchfygu'r gelyn. Gallwch chwarae gyda'r eitemau a defnyddiwch nhw fel oeddynt yn ymddangos yn y stori trwy guddio'r dortsh yn y bag papur a defnyddio'r tiwb papur tywel i greu utgorn. Gweiddwch, cleddyf yr Arglwydd a Gideon," wrth i chi ailberfformio'r camau cymerodd y milwyr i drechu'r Midianiaid. Pwyntiwch allan mai hyd yn oed os yw pethau'n edrych yn fach a gwirion, gall Duw eu defnyddio i roi'r fuddugoliaeth i ni.

Meddyliwch am ryw ddawn sydd gan eich plentyn. Meddyliwch am ffyrdd gall Duw ddefnyddio'r ddawn yma i ogoneddu Ei Hun. Pwyntiwch allan os yw Duw yn medru defnyddio torshis ac utgyrn, fe all E hefyd ddefnyddio ein doniau.

Siaradwch am sut mae pawb yn medru gweddïo. Meddyliwch am rywun sydd angen gweddi am iechyd, iachawdwriaeth a.y.b. Rhowch gyfnod o amser (yn dibynnu ar oed y plentyn) a dysgwch weddi syml iddynt am y person yna.

Gweddïwch gyda'ch plentyn a diolchwch i Dduw Ei fod yn rhoi'r fuddugoliaeth i'r rhai sy'n galw arno Ef.

© 2023 truewaykids.com



Rhoddodd Gideon utgyrn a jariau gwag gyda thortshis iddynt.

Amgylchodd y dynion y gelyn yn y nos. Chwython yr utgyrn a dangoson dortshis.

Roedd y gelyn gwir yn ofnus. Roeddynt yn ymladd ei gilydd. Rhedodd rhai i ffwrdd.

Achubodd Duw Gideon a'r bobl.






Dywedodd Duw wrth Gideon bod hi'n amser rhyddhau'r wlad.

Daeth llawer o bobl i helpu Gideon.

Dywedodd Duw bod gormod o bobl.

Roedd Duw eisiau dangos mai Ef byddai'n gadael iddynt ennill.



Dywedodd Duw wrth Gideon gallai'r rhai oedd yn ofnus fynd adref.

Aeth mwy na hanner byddin Gideon adref.

Mae hyn yn llawer o bobl!

Dywedodd Duw bod dal gormod o bobl.





Dywedodd Duw wrth Gideon am fynd a'r bobl i gael diod.

Defnyddiodd rhai eu llaw i yfed y dŵr.

Yfodd rhai'r dŵr fel ci.

Dywedodd Duw mai dim ond y rhai defnyddiodd eu dwylo gallai bod yn y fyddin.

Roedd dim ond 300 ar ôl.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## Ffeindiwch gyda thortsh

Eisteddwch yng nghanol ystafell dywyll gyda thortsh.

Cymerwch dro i ddweud eitem. Rhaid i'r person arall bwyntio at yr eitem yna mor gyflym â phosib.





## Tynnu ffwrdd teganau

Gosodwch rhai teganau ar y llawr neu'r bwrdd. Gallwch ddefnyddio rhywbeth mae'r plentyn yn hoffi, blociau adeiladu, ceir tegan, dolis, creonau a.y.b..

Cymrwch rhai i ffwrdd bob tro a chyfrwch faint sydd ar ôl.

## Tag golau tortsh

Gofynnwch i'r plentyn geisio sleifio ar draws yr ystafell.

Os yw'r person gyda'r dortsh yn clywed nhw, mae'n rhaid iddynt geisio fflachio'r dortsh arnynt.


Os yw'r golau'n eu cyffwrdd, maen nhw allan o'r gêm.





© 2023 truewaykids.com


# Cylchwch yr eitemau byddai’n helpu chi weld yn y tywyllwch





















© 2023 truewaykids.com

Mae pethau'n edrych yn wahanol yn y tywyllwch




Ceisiwch ffeindio'r eitemau canlynol



© 2023 truewaykids.com

# Sawl sydd ar ôl?

| | |
|---|---|
|  | 4<br>-1<br>_____ |
|  | 3<br>-1<br>_____ |
|  | 5<br>-2<br>_____ |
|  | 3<br>-2<br>_____ |

© 2023 truewaykids.com


# Lliwiwch gyda rhif

1 - brown

2 - melyn

3 - oren

4 - coch




© 2023 truewaykids.com


# Bowlen papier mâché

Cuddiodd Gideon y goleuadau o dan fowlen, felly dyna beth wnawn ninnau am y grefft wythnos yma.

## Pethau rydych angen:

- Glud PVA
- Dŵr
- Hen bapur newydd
- Brwsh paent
- Balŵn
- Paent

https://youtu.be/5iZQ-CWTmSk



## Beth i'w wneud:




Cymysgwch rhannau cyfartal o glud PVA a dŵr neu dilynwch rysáit glud (chwiliwch ar y we).



Chwythwch falŵn i fyny. Rhwygwch ddarnau o bapur newydd.



Brwsiwch neu trochwch bapur newydd gyda'r gymysgfa glud & gorchuddiwch y balŵn nes ei fod wedi'i gorchuddio o leiaf 4 gwaith. Gadewch i sychu.



Popiwch y balŵn a gadewch yn siâp bowlen.




Paentiwch y papier mâché gyda phaentiau posteri. Unrhyw ddyluniad yr hoffech.



Pan yn sych, gallwch roi tortsh neu golau llusern tu mewn.

© 2023 truewaykids.com


# Crefft Tortsh Gideon



**Beth i'w wneud:**
Lliwiwch y delweddau ar y tudalennau templed.
Torrwch o gwmpas y dortsh a'r darnau o'r pot toredig.
Defnyddiwch bin hollt i lynu'r pot i'r dortsh
Agorwch y pot i ddangos y golau.

https://youtu.be/6vQgRlfEQHA

© 2023 truewaykids.com




© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com

© 2023 truewaykids.com



# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.  Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Giddy-Up, Gideon

https://youtu.be/iVfE-ejdFwl

## I will trust in you

https://youtu.be/TlJU3te81Dg

## Proverbs 3:5-6

https://youtu.be/FUR1ufexry0



# Amser Gweddi

Gofynnwch i Dduw eich helpu i ymddiried Ynddo yn fwy nac ym mhethau a phobl.

Diolchwch i Dduw am yr anrhegion a'r doniau mae wedi rhoi i chi.

# Wythnos Nesaf:

## Samson

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2023 truewaykids.com